**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C**
**Cyfarfod Rhif 452**
**14 Hydref Gorffennaf 2021 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | | |
| | Owen Derbyshire | (Cyfarwyddwr Digidol a Marchnata) |
| | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| | Catrin Hughes Roberts | (Cyfarwyddwr Partneriaethau) – eitem 3 |
| | Eilir Jones | (Pennaeth Ymchwil) – eitem |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |

| | | |
|---|---|---|
| **COFNODION** | | |
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. | |
| 1.1 | Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant.<br><br>*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn Adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol* | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| 2.1 | Croesawyd Geraint Pugh i'w gyfarfod Bwrdd cyntaf.<br><br>Dyma fyddai cyfarfod llawn olaf Hugh Hesketh Evans o'r Bwrdd cyn i'w dymor ddod i ben ar 19 Tachwedd 2021. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad fel Aelod o'r Bwrdd Unedol, a'r Awdurdod cyn hynny. | |
| 3 | **Adroddiad y Prif Weithredwr** | |
| 3.1 | Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod. | |
| 3.1.1 | Outage Freeview<br><br>**[Crynodeb:** Eglurodd fod datrysiad o ran yr *outage* Red Bee Media ddigwyddodd ar y 25ain o Fedi yn cael ei drafod, gyda'r bwriad o gynnal adolygiad o brosesau DR S4C. | |
| **3.1.4** | **Negeseuon i'r Bwrdd** | |
| | **Cytunwyd y byddai'r adolygiad o'r ymateb i'r trafferthion darlledu'n ystyried y trefniadau ar gyfer hysbysu Aelodau Anweithredol y Bwrdd am unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.** | **OE/GW/GP** |
| 3.1.5 | Cyfarfodydd<br>[Crynodeb: OE a CHR wedi cyfarfod â'r Ysgrifenydd Gwladol newydd yng Nghynhadledd y Blaid Geidwadol, ac wedi gwneud trefniadau ar gyfer ymweliadau gweilydyddion i setiau recordio. Cafwyd hefyd sawl cyfarfod gyda gwleidyddion eraill. | |
| 3.1.9 | Cafwyd cyfarfod positif iawn gyda Cymru Creadigol, lle nodwyd y byddant yn hapus i gefnogi cynlluniau S4C mewn perthynas â ffilmiau, dramâu a hyfforddiant. Roedd MoU wrthi'n cael ei lunio. | |
| 3.1.10 | Holwyd am ddiweddariad ar Amazon yn cynnig rygbi gyda sylwebaeth Gymraeg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod angen mewnbwn yn y trafodaethau o ran chwaraeon *free to air*, gan fod chwaraeon yn bwysig i ni o ran niferoedd gwylwyr na fyddai fel arfer yn gwylio'r gwasanaeth, a gan ein bod ni yn ddibynnol ar drawshyrwyddo gweddill ein harlwy yn ystod rhaglenni chwaraeon. | |
| 3.2 | **Setliad BBC**<br>[**Crynodeb:** nodwyd fod y trafodaethau'n parhau gyda'r BBC mewn perthynas â'r deg awr a Pobol y Cwm, ynghyd a thrafodaethau pellach ynglŷn a darpariaeth HD. Byddai'r swyddogion yn parhau i drafod, ond roedd bellach cytundeb i ddatgysylltu trafodaethau ar lansio gwasanaeth HD i S4C oddi wrth gweddill y cytundeb. | |
| **3.2.5** | **Cynllun 10 Awr Statudol BBC**<br>**Cymeradwywyd yr argymhelliad gyflwynwyd yn yr adroddiad i barhau gyda'r cyfeiriad a chytuno i gais y BBC ohirio'r trefniant newydd nes bydd y statud wedi'i ddiweddaru, gydag amodau.** | **EM** |
| **3.2.6** | **Gwasanaeth Manylder Uwch**<br><br>**Cefnogwyd yr argymhelliad bod S4C yn ffurfio cytundeb ar wahân gyda'r BBC er mwyn lansio gwasanaeth manylder uwch erbyn Chwefror 2022** | **EM** |
| 5.<br>5.1 | **Strategaeth 22**<br>Gofynnodd OE am gymeradwyaeth y Bwrdd i'r cyfeiriad strategol. Pan y daw cadarnhad o'r setliad, bydd modd mynd ati i rannu'r manylion yn ehangach. | |
| 5.1.1 | Cafwyd trafodaeth am y naratif ac am yr angen i fod yn glir o ran strategaethau gwahanol i dargedu gwahanol garfannau, ac hefyd egluro wrth bobl pam bod angen newid. | |
| 5.1.2 | Eglurwyd bod cyfarfodydd cyson mewnol i drafod y strategaeth ac fe gadarnhawyd fod y staff i gyd yn ymwybodol o'r cyfeiriad. | |
| 5.1.3 | [**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth fanylach am y naratif | |
| | Awgrymodd GP y byddai'n cael sgwrs gyda DL i gytuno sut fyddai'n briodol i gael mewnbwn y Pwyllgor Cyfathrebu ar y camau nesaf. | |
| 5.1.6 | **Strategaeth 22 – camau nesaf**<br>**Penderfynwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei mireinio yn sgil yr adborth a dderbyniwyd; gyda'r cynllun cyfathrebu ar gyfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyfathrebu, cyn i'r ddogfen Strategaeth 22 a'r cynllun cyfathrebu cael eu hail-gyflwyno i'w cymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.** | **RhD/ Pwyllgor Cyfathrebu** |
| 6. | **Cofnodion cyfarfod Gorffennaf, Cwrdd i Ffwrdd, Pwyllgor Archwilio** | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.1 | Cyflwynwyd gofnodion cyfarfod gynhaliwyd ar y 15fed o Orffennaf a chofnodion o'r Cwrdd i Ffwrdd gynhaliwyd ar yr 16eg o Fedi a'r Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar y 15fed o Fedi. | |
| 6.1.2 | Derbyniwyd a chymeradwywyd y nodiadau o'r Cwrdd i Ffwrdd. | |
| 6.1.3 | Pwyllgor Archwilio<br>Cyflwynwyd gofnodion drafft o'r Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar y 15fed o Fedi, a chadarnhaodd CJ ei fod yn hapus gyda'r cofnodion, fydd yn cael eu cyflwyno'r ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio nesaf. | |
| 6.1.4 | Bwrdd Masnachol<br>Cyflwynwyd adroddiad ar lafar gan EM o'r Bwrdd Masnachol gynhaliwyd ar y 13eg o Hydref. | |
| 7.<br>7.1. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br>Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar yr iPlayer.<br>Adroddodd EM nad oes fawr o symud wedi digwydd yma, ac ei bod am ddilyn fyny. | |
| 8.<br>8.1 | **Rhaglen Waith y Bwrdd**<br>Cyflwynwyd copi o Raglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth. Trafodwyd ddyddiadau'r Bwrdd ar gyfer 2022 a phenderfynwyd rhoi dyddiadau ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau i mewn hyd at ddiwedd Mawrth, a thrafod ymhellach yr union anghenion ar gyfer y cyfnod wedi hynny. | |
| 8.1.1 | Bydd hefyd angen trafodaeth o ran ffurfioli aelodaeth y Prif Weithredwr o'r Bwrdd Masnachol. | |
| 8.1.2 | **Dyddiadau Bwrdd**<br>**BCW i roi dyddiadau sydd wedi'u nodi ar gyfer y Bwrdd yn y calendr hyd at ddiwedd mis Mawrth, ac yna bydd GP/RhW yn trafod union anghenion cyfarfodydd a phwyllgorau dros y flwyddyn.** | **BCW**<br>**GP/RhW** |
| 8.1.3 | **Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Masnachol**<br>**Ystyried pa drefniadau fyddai'n briodol ar gyfer cadeiryddiaeth y Pwyllgor Masnachol wedi i'r Prif Weithredwr presennol adael cyflogaeth S4C.** | **GP** |
| 9.<br>9.1 | **Cyfarwyddwr Cynnwys**<br>Amlinellodd OE y trafodaethau sydd wedi digwydd o ran penodi Cyfarwyddwr Cynnwys. Nodwyd fod penderfyniad i aros nes bydd y Prif Weithredwr newydd yn ei le cyn penodi Cyfarwyddwr Cynnwys. Yn y cyfamser, argymhellwyd i benodi Geraint Evans i'r swydd am gyfnod o chwe mis.<br>Yn ogystal bydd angen penodi rhywun dros dro i swydd bresennol GE.<br>Bydd GE yn dod yn rhan o'r Tîm Rheoli a'r Bwrdd Unedol dros y cyfnod hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.1.1 | **Cymeradwywyd argymhelliad y Prif Weithredwr i benodi Geraint Evans fel Cyfarwyddwr Cynnwys dros dro, am gyfnod o chwe mis, yn unol â'r telerau a amlinellwyd yn y papur. Cytunwyd mewn egwyddor i gymeradwyo'r argymhelliad i Geraint Evans ddod yn aelod o'r Bwrdd Unedol Cysgodol yn ystod ei gyfnod fel Cyfarwyddwr Cynnwys dros dro (yn lle Amanda Rees).** | **GP** | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd**

**Dyddiad**